Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Conference Room 4B - Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 29 Mehefin 2011**

Amser:
**11:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Helen Finlayson, 029 2089 8705**
Ysgrifenyddiaeth

## Agenda
AC(4)2011(2)

### 1. Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** (Tudalennau 1 - 5)

### 2. Adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad (Tudalennau 6 - 7)

### 3. Strategaeth ddrafft y Comisiwn 2011-16 (Tudalennau 8 - 16)

### 4. Strategaeth cyllideb ddrafft y Comisiwn (Tudalennau 17 - 32)

### 5. Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol (Tudalennau 33 - 53)

### 6. Rhestr o gontractau (Tudalennau 54 - 61)

### 7. Cofnodion y Pwyllgor Taliadau (Tudalennau 62 - 66)

### 8. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad (Tudalennau 67 - 69)

## 9. Unrhyw Fusnes Arall

Eitem 1c

# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Conference Room 4B – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 16 Mehefin 2011** |
| Amser: | **13: - 15:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2011(1)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu (Swyddog)**<br>**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Helen Finlayson, Ysgrifenyddiaeth (Swyddog)**<br>**Ian Summers (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol**<br>**David Melding, y Dirprwy Lywydd** |

## 1. Cyflwyniad

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau. Croesawyd y Comisiwn gan y Llywydd i'w gyfarfod ffurfiol cyntaf o'r Pedwerydd Cynulliad.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Datganodd Angela Burns AC fuddiant mewn cysylltiad â'r drafodaeth ar drefniadau ar gyfer llety rhent i Aelodau sydd â phlant.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

**Cofnodion cyfarfod – 14 Mawrth 2011**
Cytunwyd yn ffurfiol ar y cofnodion.

**Materion yn codi o gyfarfod 14 Mawrth 2011**
Nid oedd materion yn codi o'r cyfarfod.

## 2. Dull llywodraethu a gweithdrefn Comisiwn y Cynulliad

Cyflwynwyd papur dau gan Ian Summers. Nododd fod Comisiwn y Trydydd Cynulliad, yn 2007, wedi cytuno ar egwyddorion llywodraethu a ffyrdd o weithio ac offerynnau dirprwyo i'r Prif Weithredwr. Esboniodd fod yr egwyddorion wedi eu diweddaru i adlewyrchu profiad gweithredu cyfredol o'r Trydydd Cynulliad ac arfer da sydd wedi ei nodi yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor Adrodd Ariannol 2010. Nod yr egwyddorion ar ôl eu diweddaru oedd ceisio nodi'n glir rôl a chyfrifoldebau Comisiwn y Cynulliad, y Bwrdd Rheoli, y Cynghorwyr Annibynnol a'r Swyddog Cyfrifo.

Trafododd y Comisiwn statws cyfreithiol Cynghorwyr Annibynnol. Holodd ynglŷn â'r sail resymegol dros osod nenfwd o £1 filiwn ar gyfer dirprwyo gwariant cyfalaf i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Nododd fod hyn yn cynnwys pob prosiect cyfalaf, ond y byddai unrhyw wariant arloesol neu ddadleuol y tu allan i'r broses ddirprwyo. Nododd y Comisiwn y byddai rôl gan Gomisiynwyr, fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ac yn ystod busnes arferol, i oruchwylio darpariaeth gwasanaethau a gwariant, yn enwedig o fewn eu meysydd portffolio, ac wrth ddwyn rheolwyr i gyfrif o ran darparu gwasanaethau a defnyddio adnoddau.

Cytunodd y Comisiwn y dylid cadw at yr egwyddor o gyfrifoldeb ar y cyd, a chydnabu mai elfen allweddol yn yr egwyddorion llywodraethu oedd sicrhau bod holl Aelodau'r Cynulliad yn gallu ymgysylltu â gwaith y Comisiwn.

Cytunodd y Comisiwn i ymgymryd ag arfarniad ffurfiol o'i effeithiolrwydd ar ôl 12 mis, gan gynnwys adolygiad o'r egwyddorion llywodraethu a'r ffyrdd o weithio. Câi hyn ei wneud fel rhan o'r adroddiad blynyddol a'r broses gyfrifo, a byddai'n cymryd i ystyriaeth atborth gan Aelodau'r Cynulliad.

Cytunodd y Comisiwn y byddai'r Comisiynwyr yn sicrhau bod eu grwpiau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Comisiwn, ac y byddai'r sawl sydd â phortffolio yn barod i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Grwpiau Pleidiau er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, neu i wrando ar bryderon Aelodau pe baent yn cael eu gwahodd i wneud hynny. Nododd y Comisiwn y byddai staff yn barod i gynorthwyo Comisiynwyr wrth ymateb i unrhyw bryderon a gâi eu codi gan Aelodau, ac y byddai atborth yn cael ei groesawu gan ei fod yn cynorthwyo wrth fireinio gwasanaethau a'u datblygu. Roedd hyn yn cynnwys unrhyw sylwadau'n ymwneud â gwaith y Bwrdd Taliadau neu â goblygiadau ei Benderfyniad.

Cymeradwyodd y Comisiwn y darpariaethau llywodraethu a'r darpariaethau ategol diwygiedig, a'r rheolau diwygiedig ar gyfer rhedeg busnes y Comisiwn. Byddai hynny'n

amodol ar gynnal adolygiad ffurfiol ar ôl 12 mis. Cymeradwyodd y Comisiwn hefyd y broses ddiwygiedig o ddirprwyo swyddogaethau'r Comisiwn a'r trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Clerc.

**Cam i'w gymryd:** Fersiwn annodedig o egwyddorion llywodraethu 2007 i gael ei dosbarthu ymhlith y Comisiynwyr, gan dynnu sylw at feysydd allweddol.

## 3. Portffolios Comisiwn y Cynulliad

Amlinellodd y Llywydd y dull portffolio arfaethedig, lle byddai pob Comisiynydd yn cymryd diddordeb penodol yn un o feysydd gwaith y Comisiwn. Nododd y Comisiwn y byddai hyn yn rhoi i bob Comisiynydd y cyfle i ehangu ei wybodaeth mewn meysydd penodol, ac i weithio gyda swyddogion i ddarparu cyfeiriad strategol yn fwy rheolaidd a thrylwyr nag y byddai cyfarfodydd y Comisiwn yn unig yn ei ganiatáu. Byddai'r sawl sydd â phortffolio yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion arweiniol ac yn cael trafodaethau nawr ac yn y man gyda'r Llywydd i roi gwybod iddi am y cynnydd.

Trafododd y Comisiwn gyfansoddiad pob portffolio, a chytunwyd i rannu'r cyfrifoldebau portffolio fel a ganlyn:

| **Portffolio** | **Comisiynydd** |
|---|---|
| Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, gyda chyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Cyfreithiol. | Rosemary Butler AC |
| Y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Gwella gwasanaethau i'r Aelodau, cymorth cyflogaeth a datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a'u staff. | Angela Burns AC |
| TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystad y Cynulliad, cyfleusterau a chynaliadwyedd. Y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad. | Peter Black AC |
| Gwasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, arlwyo a diogelwch. Swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas â chydraddoldeb a rhyddid gwybodaeth. | Sandy Mewies AC |
| Ymgysylltu a chyfathrebu â'r dinesydd, allgymorth cenedlaethol a rhyngwladol. Swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. | Rhodri Glyn Thomas AC |

Yn ogystal, cytunodd y Comisiwn y dylai'r Dirprwy Lywydd ganolbwyntio ar feysydd sy'n ategu ei ddyletswyddau eraill, gan gynnwys materion cyfansoddiadol, busnes y Cynulliad, y Pierhead fel canolfan ar gyfer datblygu'r Cynulliad a thrafod, a chysylltu â Chanolfan Llywodraethiant Cymru.

Cytunodd y Comisiwn y dylai'r Llywydd anfon neges e-bost at yr Aelodau i roi cyhoeddusrwydd i gyfrifoldebau portffolio'r Comisiynwyr.

## 4. Cyfathrebu'n effeithiol ag Aelodau'r Cynulliad

Cyflwynwyd papur pedwar gan Claire Clancy, a thynnodd sylw at y ffaith bod angen i gyfathrebu llwyddiannus rhwng y Comisiwn a'r Aelodau ddigwydd y ddwy ffordd, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth ymhlith yr Aelodau o waith y Comisiwn a'r gwasanaethau mae'n eu darparu. Hefyd, roedd angen sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth well o beth yw rôl yr Aelodau a'r pwysau sy'n eu hwynebu, fel y gellir canolbwyntio a llunio gwasanaethau'n fwy effeithiol.

Nododd y Comisiwn y gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu a oedd wedi digwydd yn ystod y Trydydd Cynulliad, a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Byddai diweddariad misol y Prif Weithredwr yn parhau, ond byddai'n fwy blaengar er mwyn helpu sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybod am faterion y byddai'r Comisiwn yn eu hystyried neu am ymgynghoriadau i ddod. Nododd y Comisiwn y byddai Pennaeth newydd Cyswllt a Datblygu Proffesiynol yr Aelodau yn darparu cymorth i'r Comisiynwyr a'r Aelodau er mwyn helpu gyda chyfathrebu ac ymgysylltu, ac y byddai swyddogion perthnasol yn fodlon bod yn bresennol mewn cyfarfodydd Grŵp i gyfathrebu ac i egluro penderfyniadau'r Comisiwn. Penderfynodd y Comisiwn nad grŵp cyfeirio cyffredinol o Aelodau'r Cynulliad oedd y cyfrwng cywir ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghori, ond, pe bai angen, byddai grwpiau ymarferol yn cael eu sefydlu i ystyried materion penodol neu brosiectau mawr. Byddai grŵp cynghori'r Staff Cymorth, sy'n cynnwys rheolwyr Grwpiau'r Pleidiau, yn parhau gan fod y Comisiwn o'r farn fod hon yn llinell gyfathrebu werthfawr a oedd yn defnyddio profiad Staff Cymorth i helpu i roi prawf ar gynigion.

Cytunodd y Comisiwn y dylai'r Prif Weithredwr a'r Clerc barhau i gyfarfod ag Arweinwyr y Gwrthbleidiau yn rheolaidd i drafod materion cyfredol a materion sy'n parhau. Gofynnwyd iddi fynd at Brif Chwip y Llywodraeth i drefnu cyfarfodydd cyfatebol.

Bu'r Comisiwn yn trafod mater dosbarthu papurau a phenderfyniadau ei gyfarfodydd, a chytunwyd y dylai taflenni briffio'r Aelodau gael eu gwneud yn llawnach a'u dosbarthu ar ffurf fwy hwylus. Cytunodd y Comisiwn y dylai cofnodion ei gyfarfodydd fod yn llawnach na'r rhai a gynhyrchwyd yn y Trydydd Cynulliad ac y dylent adlewyrchu ei egwyddor o gyfrifoldeb ar y cyd. Bu'r Comisiynwyr yn trafod cynhyrchu papur canlyniad cryno ar ôl pob un o'i gyfarfodydd.

Bu'r Comisiwn yn trafod cyfathrebu â staff y Cynulliad, a chytunodd y dylai swyddogion ystyried cynnwys Comisiynwyr ym mhob cyfarfod o'r holl staff yn y dyfodol.

## 5. Adroddiad etifeddiaeth Comisiwn y Cynulliad

Cyflwynwyd papur pump gan Claire Clancy, a gwahoddodd y Comisiwn i adolygu argymhellion Comisiwn y Trydydd Cynulliad, ac ystyried pa rai oedd yn flaenoriaethau y dylid eu hadlewyrchu yn ei strategaeth ddrafft ar gyfer 2011-16.

Bu'r Comisiwn yn trafod mynediad y cyhoedd i'r Senedd, a'r modd y gellid datblygu perthynas rhwng yr Aelodau a'r cyhoedd yn y Senedd, ond gan gynnal diogelwch a phreifatrwydd i'r Aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu rôl. Cytunodd y Comisiwn y dylid ystyried lleoliad y siop ac opsiynau ar gyfer darparu wi-fi, a fyddai'n hwylus i'r Aelodau ac i'r cyhoedd, yn y Senedd.

Nododd y Comisiwn yr argymhellion yn ymwneud â llif gwybodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Ymchwil, a'r diddordeb roedd y Bwrdd Taliadau wedi ei ddangos yn y mater hwn. Teimlai'r Comisiwn fod hyn yn rhwystr i'r Aelodau.

Cytunodd y Comisiwn y dylid ystyried cynaliadwyedd ystad y Cynulliad ac y dylid adolygu hyn bob blwyddyn.

Gofynnodd y Comisiwn am adolygiad o'r prosiect UNO, a chytunodd y dylai'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect ategu datblygiad ei strategaeth.

Cytunodd y Comisiwn y byddai'n ystyried ei strategaeth ddrafft yn ei gyfarfod nesaf ar 30 Mehefin, ac y dylid cyfleu i swyddogion yn y cyfamser unrhyw faterion pellach i'w cynnwys.

## 6. System rheoli achosion y Cynulliad (cofrestri etholwyr)

Cyflwynwyd papur chwech gan Peter Black AC, a nododd fod y system rheoli achosion, lle'r oedd nifer o anawsterau wedi bod wrth ei datblygu a'i gweithredu, erbyn hyn yn barod ac ar waith. Nododd mai'r gronfa ddata y bwriedir ei defnyddio i redeg y feddalwedd oedd y gofrestr etholiadol heb ei golygu. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, gall Aelodau'r Cynulliad ofyn am gopïau o'r gofrestr gan Swyddogion Canlyniadau. Caiff y rheini wedyn eu rhoi i staff y Comisiwn i fewngofnodi'r data yn y system rheoli achosion ar ran yr Aelodau. Fodd bynnag, nid yw staff y Comisiwn eu hunain yn gallu cael y data'n uniongyrchol oddi wrth swyddogion cofrestru etholiadol.

Bu'r Comisiwn yn trafod defnyddio'r system rheoli achosion, a materion diogelu data a diogelwch a allai godi o ddefnyddio fersiynau o'r gofrestr etholiadol heb eu cyfyngu, a hynny'n cynnwys bod staff y Comisiwn yn trin y data. Hefyd byddai angen gwneud cais i Lywodraeth y DU am is-ddeddfwriaeth i gynnwys y Comisiwn ar y rhestr o gyrff wedi eu henwi pe bai'r Comisiwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig. Mynegwyd pryderon am berchnogaeth data, diogelu data, posibilrwydd defnyddio'r gofrestr at ddibenion gwleidyddol plaid, a buddsoddi pellach mewn meddalwedd a oedd eisoes wedi costio mwy nag a ddisgwyliwyd. Nododd y Comisiwn fod yr Aelodau ar hyn o bryd yn gallu gofyn am y data, a byddai staff TGCh yn hwyluso'u mewnosod ar y system, ond roedd mewnosod cofrestrau a fyddai'n cwmpasu Cymru gyfan yn ddibynnol ar ofyn am ddata gan yr Aelodau perthnasol.

Gofynnodd y Comisiwn am i ragor o wybodaeth am nifer yr Aelodau a oedd yn defnyddio'r system rheoli achosion, y goblygiadau o ran yr adnoddau a'r costau o gael staff y Comisiwn yn ymwneud â gofyn am y data a'u cael yn uniongyrchol, gael ei darparu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2012 (Papur 2 Rhan 1)**
**Adroddiad blynyddol a chyfrifon**
**Comisiwn y Cynulliad 2010-11**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 29 Mehefin 2011
**Amser:** 11.30-13.00
**Lleoliad:** Ystafell gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Iwan Williams, est 8039

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2010-11

## 1.0 Diben a chrynodeb o faterion

1.1. Mae'r papur hwn yn atodol i gopi electronig drafft o adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011.

## 2.0 Argymhellion

2.1. Gwahoddir y Comisiwn i gymeradwyo'r adroddiad. Os bydd y Comisiwn yn ei gymeradwyo, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ddydd Iau 14 Gorffennaf.

## 3.0 Trafodaeth

3.1. Mae'r fersiwn ddrafft o'r adroddiad blynyddol, sydd wedi ei gysylltu yn Atodiad A, i'w gymeradwyo gan y Comisiynwyr a mynd drwy broses brawfddarllen derfynol. Wedyn caiff ei osod fel adroddiad ar-lein rhyngweithiol. Bydd y Datganiad Cyfrifon, a gaiff ei adolygu gan Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ar 7 Gorffennaf, yn cael ei gysylltu wrth yr adroddiad cyn ei gyhoeddi.

3.2. Bydd fersiwn lawn o'r adroddiad, ar ffurf llinell amser ryngweithiol, ar gael ar wefan y Cynulliad ar 14 Gorffennaf.

3.3. Bydd y fersiwn ar-lein yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau ar fynediad ar gyfer gwefannau. Bydd hefyd ar gael fel dogfen pdf a dogfen testun yn unig.

3.4. Caiff crynodeb wedi ei argraffu ei ddosbarthu mewn digwyddiadau ac i bobl sy'n ymweld â'r Senedd a Pierhead.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2012 (Papur 3 Rhan 1)**
**Strategaeth Ddrafft y Comisiwn 2011-16**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 29 Mehefin 2011
**Amser:** 11.30-13.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Claire Clancy, estyniad 8233

# Strategaeth Ddrafft y Comisiwn 2011-16

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r prif faterion

1.1. Bydd Strategaeth y Comisiwn, pan gytunir arni, yn darparu ffocws clir ar gyfer gwaith y Comisiwn dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y nodau strategol yn llywio gwaith cynllunio ariannol y Comisiwn am dymor y Cynulliad a darparu man cychwyn ar gyfer gwaith cynllunio i Gyfarwyddiaethau a Meysydd Gwasanaeth, ac yn ffrydio'i lawr i amcanion perfformiad unigol.

1.2. Bydd y ddogfen yn galluogi'r Comisiwn i gyfleu ei flaenoriaethau strategol i:

- ddarparu cyfeiriad strategol i'r Prif Weithredwr a, thrwyddi i staff y Cynulliad, a thrwyddynt hwythau y bydd gwaith cynllunio a darparu yn deillio;
- peri dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer blaenoriaethau holl Aelodau'r Cynulliad;
- cyfleu gwaith y Comisiwn yn eang; a
- darparu sail ar gyfer mesur perfformiad a gwariant y Comisiwn.

## 2.0 Argymhellion

2.1. Bod Comisiynwyr yn rhoi sylwadau ar y Datganiad o Ddiben a'r Nodau Strategol drafft fel y gallwn sicrhau bod y fersiwn derfynol yn ddarlun teg o'u blaenoriaethau a'u huchelgais hwy ar gyfer y Comisiwn. Mae crynodeb un dudalen o hyd ynghlwm yn Atodiad B.

## 3.0 Profiad ers y Trydydd Cynulliad

3.1. Ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad, cymeradwyodd y Comisiwn ei amcanion a'i werthoedd a diffiniodd ei nodau ar gyfer y Trydydd Cynulliad. Ar ddiwedd y Cynulliad, cyhoeddodd y Comisiwn Adroddiad Etifeddiaeth i gofnodi ei gyflawniadau arwyddocaol a'r gwersi a ddysgwyd o brofiadau'r pedair blynedd. Ar gyfer pob un o'i bum nod strategol darparodd y Comisiwn argymhellion i gynorthwyo'r Comisiwn yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae Atodiad A i'r papur yn rhoi crynodeb o'r cefndir yn y Trydydd Cynulliad, a ddeilliodd o'r Adroddiad Etifeddiaeth.

## 4.0 Egwyddorion i arwain y Strategaeth newydd

4.1. Gweithiodd Diben a Nodau Strategol y Trydydd Cynulliad yn effeithiol dros y pedair blynedd. Profodd eu cwmpas a'u huchelgais yn addas ac maent yn berthnasol o hyd. Roedd rhai problemau gyda dehongli ystyr y nodau. Am hynny, rydym yn argymell y dylem gadw'r strategaeth a'r nodau yn eithaf byr, syml a chryno.

4.2. Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth newydd a'r nodau fod yn rhai uchelgeisiol ond ar yr un pryd y dylent adeiladu ar y momentwm a sicrhawyd, yn benodol, yng ngoleuni'r sefyllfa gyfansoddiadol sydd wedi newid yn dilyn canlyniad y refferendwm, a'r cyd-destun ariannol anodd presennol. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad credwn y dylem:

- gadarnhau'r ffocws ar ddarparu gwasanaeth safonol i'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad, ac yn arbennig ar ddarparu ystod gyflawn o bwerau'r Cynulliad;

- adeiladu ar enw da'r Cynulliad fel corff sy'n rhagweithiol yn ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru yn ei waith.

Sefydlwyd yr enw da yn ystod rhaglen lwyddiannus "Pleidleisiwch 2011";

- defnyddio'r swm sylweddol o waith a wnaed yn ystod y Trydydd Cynulliad i sefydlu seiliau cadarn a datblygu strategaethau penodol er enghraifft e-ddemocratiaeth, brandio, rheoli asedau, cydraddoldebau; a

- adlewyrchu ein safiad o ran effeithiolrwydd a chyllidebau drwy ein herio i weithio'n fwy doeth, gyda rhagor o hyblygrwydd a defnydd effeithiol o'n sgiliau ac adnoddau eraill ar adeg o gyfyngiadau ariannol mawr.

4.3. Rhaid i'r strategaeth hefyd adlewyrchu'r ffaith bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod gan y Comisiwn barch at egwyddorion cyfle cyfartal, cynaliadwyedd a thriniaeth gyfartal i'r iaith Gymraeg a Saesneg wrth gyflawni ei swyddogaethau.

4.4. Rhaid i'r cynlluniau a roir ar waith i gyflawni'r nodau strategol fod yn eglur ynglŷn â chanlyniadau a fwriadwyd, allu dangos ein perfformiad a'n gwariant yn erbyn y nodau, a mesur a darparu tystiolaeth o'n cynnydd. Byddwn yn dechrau paratoi'r cynlluniau manwl, mesuradwy hyn cyn gynted ag y bydd y Comisiwn yn cadarnhau ei strategaeth.

## 5.0 Strategaeth newydd arfaethedig ar gyfer 2011-16

### Datganiad o Ddiben Drafft

5.1. <u>Cynulliad Cenedlaethol Cymru</u> yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

5.2 Mae <u>Comisiwn y Cynulliad</u> yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

### Nodau Strategol Drafft

5.3 Nodau strategol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16 yw:

- **Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**
  Canlyniad: Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu gweld eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau strategol i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn deddfu ar gyfer Cymru ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

- **Ymgysylltu'n frwd ac eang â phobl Cymru**
  Canlyniad: Mae pobl Cymru'n ymddiddori yng ngwaith y Cynulliad a gallant ddeall yn rhwydd a chymryd rhan yn rôl y Cynulliad i ddeddfu, craffu a chynrychioli, ac mae'r Cynulliad yn cael budd o'r egni creadigol sy'n deillio o'r fath ymgysylltu.

- **Ennill ffydd Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y modd rydym yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau**
  Canlyniad: Mae Aelodau a'r cyhoedd yn cydnabod ac yn ymddiried ein bod yn gwneud defnydd da o arian y trethdalwr, ein bod yn rheoli adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol gydag effeithiolrwydd a gwerth am arian gwell.

5.4 Mae'r modd rydym yn darparu'r nodau hyn yn bwysig hefyd. Byddwn yn:

- gweithredu gydag uniondeb a thegwch a byddwn yn ddiduedd, gan ddangos parch at bawb ac yn trin pawb yn gyfartal
- cryfhau ethos dwyieithog y Cynulliad;
- darparu pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Comisiwn yn gyflym, gydag arbenigedd proffesiynol ac ethos gwasanaeth cadarn;
- gosod safonau uchel a chadw ein haddewidion;
- bod yn agored a thryloyw, yn gwneud ein hunain yn agored i graffu manwl o bob tu, ac yn darparu tystiolaeth y gellir ei mesur o'r hyn a gyflawnwyd gennym;
- buddsoddi mewn cynaliadwyedd a thechnoleg i wella effeithiolrwydd; a
- dangos ein hymrwymiad gwirioneddol i ddemocratiaeth seneddol yng Nghymru a'n balchder yn y Cynulliad

## Cefndir gan adroddiad etifeddiaeth Comisiwn y Trydydd Cynulliad

1. Cytunodd y Comisiwn diwethaf mai ei ddiben mwyaf blaenllaw fyddai: "Gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder ym mhobl Cymru".

### Pum nod strategol ar gyfer y Trydydd Cynulliad

***Byddwn yn hyrwyddo datganoli ac yn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses***

2. Roedd y Comisiwn diwethaf am ddangos bod y Cynulliad yn gweithio dros bawb yng Nghymru gan eu hannog i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd, ac yn pwysleisio sut y mae'r Cynulliad yn effeithio er gwell ar fywydau pobl Cymru. Gyda datganoli ehangach yn raddol drwy Ddeddf 2006, a'r refferendwm ynghylch mwy o gymhwysedd deddfwriaethol, roeddem am ddangos ein bod yn barod i ymgymryd â'r heriau hyn gyda brwdfrydedd. Roedd yr Adroddiad Etifeddiaeth yn argymell y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn perthynas â'r nod strategol hon:

- cydweithio ag Aelodau ar weithgareddau cyfathrebu i'w galluogi a'u grymuso i weithredu fel cenhadon dros waith y Cynulliad;
- canolbwyntio ar faterion sylfaenol wrth gyfleu negeseuon ee y gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad sydd, er gwaethaf pob ymdrech gennym, yn dal i beri dryswch gan amharu ar brofiad y dinesydd o ddemocratiaeth Cymru;
- cyfleu negeseuon clir am waith y Cynulliad yn dilyn y bleidlais gadarnhaol; a
- dal i weithio ar strategaethau allweddol fel brandio, e-ddemocratiaeth a'r Pierhead, fel y byddwn yn cael yr holl fudd o'r gwaith cychwynnol a wnaethpwyd yn ystod y Trydydd Cynulliad.

***Byddwn yn dangos undod ac arweiniad ac yn ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol.***

3. Roedd y Comisiwn diwethaf am i'r Cynulliad ddangos hyder a gallu wrth ddefnyddio'i bwerau newydd. Roeddem yn unedig yn ein bwriad i sicrhau gwaith craffu a deddfu o'r radd flaenaf, gan gynorthwyo'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig. Roedd yr Adroddiad Etifeddiaeth yn

argymell y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn perthynas â'r nod strategol hon:

- sicrhau bod adnoddau ar gael i ddiwallu anghenion y Cynulliad yn y dyfodol yn dilyn y bleidlais gadarnhaol a phenderfyniadau'r Pwyllgor Busnes/Cynulliad mewn cysylltiad â threfnu busnes y Cyfarfodydd Llawn a'r pwyllgorau;

- cydgysylltu â'r Bwrdd Taliadau i sicrhau bod penderfyniadau'r Comisiwn a'r Bwrdd yn ategu ei gilydd lle bynnag y bo modd;

- trafod â Llywodraeth Cymru i sicrhau blaenoriaeth i hawl Aelodau unigol a phwyllgorau i weld gwybodaeth ffeithiol sy'n cael ei dal gan Lywodraeth Cymru.

***Yn ein holl waith, byddwn yn dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da***

4. Roedd y Comisiwn diwethaf yn sylweddoli ei bod yn ofynnol bod modd i bobl graffu'n fanwl ar bob agwedd ar ein gwaith, rhaid i'n holl waith fod yn dryloyw a rhaid iddo adlewyrchu natur amrywiol Cymru a'i hieithoedd a'r modd rydym yn delio â phobl ac yn eu cynnwys yn ein gwaith. Roedd yr Adroddiad Etifeddiaeth yn argymell y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn cysylltiad â'r nod strategol hon:

- ystyried yn ofalus y cydbwysedd priodol rhwng darbodion a chyflenwi gwasanaethau, er mwyn osgoi amharu ar wasanaethau hanfodol i Aelodau a gwastraffu egni ac adnoddau ar amddiffyn penderfyniadau y mae Aelodau'n eu cael yn annerbyniol.

- sicrhau nad yw cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dioddef yn ystod cyfnod economaidd caled.

- symud ymlaen â threfniadau newydd i gyflenwi gwasanaethau dwyieithog ar sail gadarnach, yn cynnwys Cynllun Iaith Swyddogol.

- cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio yn ei waith o gynnal safonau llywodraethu uchel ym mhob rhan o'r corff, gan gynnwys meysydd caffael a rheoli contractau.

***Byddwn yn gweithio'n gynaliadwy***

5. Roedd y Comisiwn diwethaf am ddangos arweiniad yn y ffordd rydym yn trin a thrafod ein gwaith a'n hystâd, a'n nod yw sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl. Roedd yr Adroddiad Etifeddiaeth yn argymell y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn perthynas â'r nod strategol hon:

- cydnabod ac adeiladu ar sail arweiniad y Comisiwn wrth sicrhau gweithio cynaliadwy ar gyfer y Cynulliad wrth benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad;
- pennu ffyrdd i gynnal momentwm pan allai'r hinsawdd economaidd ei gwneud yn fwy anodd buddsoddi'n uniongyrchol mewn cynaliadwyedd;
- gwneud ein cyflawniadau yng nghyd-destun polisïau amgylcheddol a'n dymuniad i gynnal y momentwm yn rhan allweddol o'n cyfathrebu a'n haddysg ar gyfer defnyddwyr ystâd y Cynulliad, ymwelwyr a Chymru'n gyffredinol;
- fel rhan o'r dull hwn o weithredu, pennu blaenoriaeth polisïau cynaliadwyedd yn ofalus er mwyn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir heb effeithio'n amhriodol ar Aelodau ac eraill sy'n defnyddio ystâd y Cynulliad.

***Byddwn yn gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol***

6. Roedd y Comisiwn diwethaf am godi safon y gwasanaethau a ddarperir i Aelodau a phobl Cymru, gan ddangos ein bod yn defnyddio'n hadnoddau'n ddoeth ac yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian. Gwasanaethu, yng nghyswllt yr Aelodau a phawb sy'n ymwneud â'r Cynulliad, yw'r ethos sydd wrth wraidd popeth a wnawn. Roedd yr Adroddiad Etifeddiaeth yn argymell y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn perthynas â'r nod strategol hon:

- Cysylltu'n agos ag Aelodau a'u staff cymorth ynghylch y gwasanaethau y maent eu hangen ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn;
- Adolygu contract Merlin (mae'r gwaith wedi dechrau) a gwireddu buddion ac agweddau ar werth am arian prosiect UNO;
- Cynnal y trefniadau llywodraethu cadarnaf er mwyn peidio â bygwth ein gallu i ddarparu na pheryglu ein henw da.

## Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2011-16

### Datganiad o Ddiben

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democratiadd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

### Nodau strategol

- **Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**
  Canlyniad: Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu gweld eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau strategol i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn deddfu ar gyfer Cymru ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.
- **Ymgysylltu'n frwd ac eang â phobl Cymru**
  Canlyniad: Mae pobl Cymru'n ymddiddori yng ngwaith y Cynulliad a gallant ddeall yn rhwydd a chymryd rhan yn rôl y Cynulliad i ddeddfu, craffu a chynrychioli, a bydd y Cynulliad yn cael budd o'r egni creadigol sy'n deillio o'r fath ymgysylltu.
- **Ennill ffydd Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y modd rydym yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau**
  Canlyniad: Mae Aelodau a'r cyhoedd yn cydnabod ac yn ymddiried ein bod yn gwneud defnydd da o arian y trethdalwr, ein bod yn rheoli adnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol gydag effeithiolrwydd a gwerth am arian gwell.

Mae'r modd rydym yn darparu'r nodau hyn yn bwysig hefyd. Byddwn yn:

- gweithredu gydag uniondeb a thegwch a byddwn yn ddiduedd, gan ddangos parch at bawb ac yn trin pawb yn gyfartal;
- cryfhau ethos dwyieithog y Cynulliad;
- darparu pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Comisiwn yn gyflym, gydag arbenigedd proffesiynol ac ethos gwasanaeth cadarn;
- gosod safonau uchel a chadw ein haddewidion;
- bod yn agored a thryloyw, yn gwneud ein hunain yn agored i graffu manwl o bob tu, ac yn darparu tystiolaeth y gellir ei mesur o'r hyn a gyflawnwyd gennym;

- buddsoddi mewn cynaliadwyedd a thechnoleg i wella effeithiolrwydd; a
- dangos ein hymrwymiad gwirioneddol i ddemocratiaeth seneddol yng Nghymru a'n balchder yn y Cynulliad.

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

**NAFWC 2011 (Papur 5)**
**Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 29 Mehefin 2011
**Amser:** 11:30-13:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a'i rhif ffôn:** Claire Clancy, estyniad 8233

## Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol

**1.0 Diben**

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am nifer o faterion allweddol sydd ar waith ar hyn o bryd.

**2.0 Llif gwybodaeth**

2.1 Ers 2007, bu'r Gwasanaeth Ymchwil yn rhan o drefniant, a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth, lle nad oes modd cysylltu'n uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth y gofynnir amdani ar ran Aelodau.

2.2 Rhaid i bob cais, waeth beth yw ei gynnwys na'i gymhlethdod, gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig, trwy swyddfa breifat y Gweinidog perthnasol. Pan fydd y swyddfa breifat yn fodlon â'r geiriad, bydd yn trosglwyddo'r cais i swyddogion polisi, a fydd yn anfon eu hymateb yn ôl i'r swyddfa breifat ar gyfer ei wirio gan y Gweinidog.

2.3 Tua 12 y cant yn unig o ymholiadau'r Gwasanaeth Ymchwil sy'n cael eu cyfeirio at y Llywodraeth. Ar gyfartaledd, yr amser ymateb gan y Llywodraeth yw 17 diwrnod gwaith. Fel llwybr i'r Aelodau at wybodaeth ffeithiol a gedwir gan y Llywodraeth, mae'r Gwasanaeth Ymchwil felly'n arafach ac yn fwy cyfyngedig na'r llwybrau sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol. Nid oes unrhyw ddeddfwrfa arall yn y DU, nac ychwaith, hyd y gwyddom, unman arall yn y Gymanwlad, yn gweithredu fel hyn.

2.4 Yng ngoleuni effaith y cyfyngiad hwn ar y gwasanaethau sydd ar gael i Aelodau gyflawni eu swyddogaethau strategol, bu Cadeirydd y Bwrdd Taliadau'n gohebu â'r Prif Weinidog am y mater hwn. Yna, gwnaed argymhelliad gan y Bwrdd y dylai'r Comisiwn ystyried ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i roi trefniadau ar waith sy'n cyfateb i'r trefniadau

mewn sefydliadau seneddol eraill yn y DU. Byddai hwn yn wasanaeth a fyddai wedi'i seilio ar yr egwyddor bod gan Aelodau unigol a phwyllgorau flaenoriaeth o ran yr hawl i gael gwybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac y dylai staff y Gwasanaeth Ymchwil, sy'n gweithio ar ran Aelodau, allu cyfathrebu'n uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru.

2.5 Ar ôl ymgynghori â chydweithwyr yn y Cabinet, mae'r Prif Weinidog wedi cytuno ag argymhelliad y Bwrdd y dylai'r Gwasanaeth Ymchwil gael mynediad uniongyrchol at swyddogion Llywodraeth Cymru. Gall y Gwasanaeth Ymchwil gysylltu â swyddogion ar lefel penaethiaid canghennau neu uwch er mwyn cadarnhau gwybodaeth neu i ganfod lleoliad deunydd a gyhoeddwyd yn y gorffennol, a bydd modd iddynt anfon negeseuon e-bost yn uniongyrchol at swyddogion ar gyfer ceisiadau eraill yn hytrach na chyflwyno ceisiadau i swyddfeydd preifat. Anfonir copi o bob ymateb at y swyddfa breifat berthnasol pan anfonir hwy gan swyddogion y Llywodraeth i sicrhau bod Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yn ymwybodol o'r wybodaeth a ddarperir, a bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi pob cwestiwn ac ymateb ar log datgelu ar ei gwefan.

2.6 Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil yn cyfarfod â swyddogion y Llywodraeth i gytuno ar brotocol a fydd wedi'i seilio ar yr egwyddorion hyn gyda'r nod o sicrhau y bydd ar waith o fis Medi ymlaen.

**3.0 Materion ynghylch diogelwch**

3.1 Ceisia'r Gwasanaeth Diogelwch ddarparu gwasanaeth gwerth gorau sy'n cyd-fynd ag anghenion busnes o ran ei effeithiolrwydd, ei effeithlonrwydd, hyblygrwydd, gwerth am arian a'i gyfraniad at sicrhau ysbryd da ymhlith y staff.

3.2 Yn dilyn y cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gaiff eu cynnal ac yn dilyn agor y Pierhead ar y penwythnos, cynhaliwyd adolygiad gennym o strwythurau'r gwasanaeth a'r oriau gwaith, a daeth yn amlwg bod patrymau gweithio cyfredol yn golygu nad yw'r gwasanaeth diogelwch yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithlon. Yn ystod y tymor, nid oes digon o staff Diogelwch i gefnogi gweithgareddau busnes craidd, digwyddiadau ac agor ystâd y Cynulliad ar benwythnosau. I'r gwrthwyneb, yn ystod y toriad, mae gormodedd o staff.

3.3 O ganlyniad, roedd costau gweithio goramser o £110,800 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11. Mae gweithio goramser yn dibynnu ar bobl i wirfoddoli, mae'n ddrud ac ni ellir ei gynnal yn yr hirdymor. Mae

dibynnu ar weithio goramser ar brydiau wedi arwain at orfod cau adeiladau yn ystod oriau agor swyddogol.

3.4 Dechreuodd trafodaethau rhwng staff Diogelwch a'r Undebau Llafur ar yr opsiynau ar gyfer newid ym mis Hydref 2010, gyda'r nod o ddatblygu gwasanaeth mwy hyblyg a all ymateb yn gadarnhaol i batrymau gweithgaredd gwahanol trwy holl ystad y Cynulliad, ac i sicrhau bod cefnogaeth effeithiol i'r Pedwerydd Cynulliad.

3.5 Ar hyn o bryd dim ond 17 o'r 35 Swyddog Diogelwch yr effeithir arnynt gan y newidiadau hyn sydd wedi cytuno ar y telerau ac amodau newydd. Mae pob un o'r 17 wedi cael iawndal o £2,000.

3.6 Mae trafodaethau wedi parhau â'r 18 Swyddog Diogelwch arall, yn benodol gyda golwg ar ddeall pryderon unigolion ynghylch sicrhau cydbwysedd rhwng cartref a gwaith a chanfod sut y gellir rhoi ei briod le i hyn o fewn patrwm gweithio mwy hyblyg.

3.7 Mae adolygiad arall o'n cynigion wedi nodi y gellid gweithredu'r patrymau gwaith newydd pe byddai 12 swyddog arall yn cytuno ar y telerau ac amodau newydd. Byddai hyn yn galluogi inni ddileu'r mwyafrif o'r goramser. Yna gallai'r staff sy'n weddill aros ar eu patrymau gwaith presennol a'u cynnwys o fewn y strwythur newydd.

3.8 Os na allwn sicrhau bod y nifer gofynnol o Swyddogion ar y telerau a'r amodau newydd, bydd angen cymryd camau pellach. Mae rhagor o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn i'w gweld yn Atodiad A.

## 4.0 Dyfarnu'r contract arlwyo

4.1 Yn unol â gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, nododd y Comisiwn diwethaf yr angen i leihau'r cymhorthdal a'r gost o wasanaethau a gontractir, yn cynnwys arlwyo. Roedd yn sylweddoli'r effaith andwyol tebygol a gâi gostyngiad o'r fath ar staffio i gontractiwr, a nododd y byddai'n rhaid i'r contractiwr llwyddiannus chwarae rhan fawr i gynorthwyo'r Cynulliad i sicrhau'r arbedion angenrheidiol.

4.2 Drwy adolygiad o'r fanyleb, roedd y tendr arlwyo yn nodi y dylid cynnal ansawdd y gwasanaeth dros oes y contract, ond, er mwyn sicrhau arbedion ariannol, roedd am leihau gwasanaethau mewn rhai meysydd.

4.3 Roedd y fanyleb ddiwygiedig yn nodi dau brif opsiwn. Yr opsiwn cyntaf oedd darparu, fel isafswm, y gwasanaethau sylfaenol a ddarperir ar hyn

o bryd. Roedd yr ail opsiwn yn cynnwys gostyngiad o 40 y cant yng nghymhorthdal y Cynulliad dros dair blynedd gyntaf y contract.

4.4 Yn y naill opsiwn a'r llall, byddai disgwyl i'r contractiwr llwyddiannus weithio'n agos gyda'r Comisiwn i wneud cynnydd o ran ail-ddiffinio'r ddarpariaeth arlwyo, ac i newid o wasanaeth â chymhorthdal i ddull mwy masnachol o ran prisio a gwasanaeth.

4.5 Nododd y fanyleb bod y Cynulliad yn awyddus i ymchwilio i'r holl opsiynau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau, ac, yn ychwanegol at ei ddau brif opsiwn, roedd yn annog rhai sy'n tendro i gyflwyno trydydd opsiwn i ddangos dull amgen o'u dewis hwy. Byddai hyn yn galluogi i gynigion masnachol creadigol gael eu gwneud.

4.6 Roedd yr arfarniad o'r ceisiadau am y tendr a chyflwyniadau gan y contractwyr yn cynnwys asesiad o ansawdd a chost. O gofio natur heriol y contract arlwyo a'r gofyniad i sicrhau arbedion, gwnaed asesiad risg pellach o gynigion ariannol y rhai a oedd yn tendro.

4.7 Nododd yr asesiad risg ariannol ar gyfer opsiwn 2 (gostyngiad o 40 y cant yn y cymhorthdal dros dair blynedd) fod risgiau ariannol uwch yn gysylltiedig â nifer o'r ceisiadau o ran amcanestyniadau gwerthiant, bwyd, llafur a chostau amrywiol er mwyn cyflawni'r arbedion canrannol.

4.8 Amcan sylfaenol y fanyleb oedd cynnal ansawdd a lleihau costau ar yr un pryd. Fodd bynnag, pe bai'r Comisiwn yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â gostyngiadau i'r cymhorthdal arlwyo, nododd canlyniadau'r arfarniad mai Charlton House oedd y mwyaf llwyddiannus yn y ddau opsiwn tendro.

4.9 Mae'r contract newydd wedi'i ddyfarnu i Charlton House, felly, ar y sail bod y cais a ddarparwyd yn gweddu orau i ofynion y Comisiwn o ran ansawdd a chost. Bydd y contract yn dechrau ar 4 Medi 2011 a bydd yn parhau am gyfnod o bum mlynedd.

**5.0 Gwasanaethau dwyieithog**

5.1 Yn dilyn cais gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gyfarfod i drafod canfyddiadau ei ymchwiliad i Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn, cyfarfu'r Llywydd, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyfathrebu â Phrif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 15 Mehefin.

5.2 Roedd y cyfarfod yn un adeiladol dros ben a chanolbwyntiodd ar sut y gallai Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Comisiwn weithio mewn partneriaeth i ddatblygu ein gwasanaethau dwyieithog yn y Pedwerydd Cynulliad.

Rhoddwyd pwyslais ar sut y gallai Bwrdd yr Iaith helpu'r Comisiwn i ddod o hyd i ddull effeithiol ac effeithlon o sicrhau bod trafodion ar gael yn rhwydd yn y ddwy iaith, er enghraifft, drwy ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg.

5.3 Cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith ei adroddiad ar 16 Mehefin, ynghyd â datganiad i'r wasg, a oedd yn cyfeirio at ei fwriad i weithio gyda'r Comisiwn ar y ffordd ymlaen. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a gellir anfon copïau at Gomisiynwyr ar gais.

5.4 Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, bydd y Comisiwn yn ystyried prif argymhellion adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'i ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad; Bil drafft ar Ieithoedd Swyddogol a chynllun Ieithoedd Swyddogol drafft; a chynigion ar gyfer ymgynghori cyhoeddus dros yr haf.

**6.0 Protocol ar gyfer tystion agored i niwed**

6.1 Mae protocol, y gellir ei weld yn Atodiad B, wedi'i ddatblygu i nodi sut y dylai staff y Cynulliad Cenedlaethol, Aelodau'r Cynulliad a staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ymdrin â phersonau agored i niwed, yn benodol y rhai sy'n dod ac yn ymddangos gerbron pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cynulliad fel tystion. Bydd y protocol yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y rhai sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â thystion. Mae rhannau o'r protocol hefyd yn berthnasol i faterion sy'n codi, a digwyddiadau a gynhelir, y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol y Cynulliad.

6.2 Ymhlith amcanion y protocol hwn mae sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a staff:

- yn ymwybodol o egwyddorion cyfle cyfartal wrth ymdrin â'r rhai sy'n dod i gysylltiad â phwyllgorau'r Cynulliad;
- yn ystyried y ffyrdd mwyaf priodol o gasglu gwybodaeth gan dystion, a defnyddio'r trefniadau arbennig priodol;
- yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn tystion agored i niwed ac i gefnogi eu hanghenion unigol cyhyd ag sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol hefyd;
- cymryd cyfrifoldeb am, a deall eu rôl i amddiffyn tystion sy'n agored i niwed;

- deall eu cyfrifoldeb i adnabod a nodi achosion posibl o gamdrin neu niwed fel bod modd i dystion agored i niwed gael eu diogelu rhag niwed pellach;
- yn gwybod yn fras am fodolaeth partneriaid allanol ac asiantaethau cyfeirio perthnasol fel y Comisiynydd Plant, yr Heddlu, NSPCC, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati; ac
- yn cael hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

6.3 Byddai'r protocol yn cydfynd â dyletswydd statudol y Cynulliad i sicrhau Triniaeth Gyfartal, y Cynllun Cydraddoldebau Sengl a'r Datganiad Cydraddoldeb Strategol, yn ogystal ag unrhyw brotocol amddiffyn plant a hyfforddiant /deunydd hyfforddiant a gaiff ei ddarparu.

6.4 Gofynnir i'r Comisiwn gymeradwyo'r protocol. Os caiff ei gymeradwyo gan y Comisiwn, bydd disgwyl i holl staff ac Aelodau'r Cynulliad gydymffurfio â'r protocol, a byddant yn cael eu hannog i wneud hynny.

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2012 (Papur 6 Rhan 1)**
**Rhestr o gontractau**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 29 Mehefin 2011
**Amser:** 11:30–13:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a'i rif ffôn:** John Grimes, estyniad 8225

# Rhestr o gontractau

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Yn eu cyfarfod anffurfiol yn ddiweddar gofynnodd y Comisiynwyr am ragor o wybodaeth am restr o gontractau'r Cynulliad.

## 2.0 Argymhelliad

2.1 Gwahoddir y Comisiynwyr i nodi'r rhestr aqtodedig ac i ystyried sut y gallai'r Comisiwn gymryd rôl fwy weithredol yn null y Cynulliad o gaffael. Nodir rhai dewisiadau posibl ar ddiwedd y papur hwn.

## 3.0 Rhestr o gontractau'r Cynulliad

3.1 Mae crynodeb o restr o gontractau'r Cynulliad i'w gweld yn Atodiad A.

3.2 Mae'r rhestr yn dangos y contractau gwerth mwy na £25,000 sy'n cael eu hadnewyddu bob blwyddyn. Mae'n rhoi manylion cryno am bob contract, ac, yn benodol, mae'n nodi'r dyddiadau dechrau a gorffen. Dengys y golofn dan y teitl 'Fframwaith' y contractau hynny a gaiff eu rhoi o dan 'fframwaith' y sector cyhoeddus ac ar gyfer pa rai y mae trefniadau tendro mwy syml ar waith.

3.3 Mae'r rhestr yn cynorthwyo gyda gwaith cynllunio caffael ymlaen llaw ar gyfer y dyfodol.

## 4.0 Materion ehangach o ran caffael

4.1 Cyhoeddir y rhestr hefyd ar safle'r Cynulliad ar y rhyngrwyd, fel y gall cyflenwyr posibl fod yn ymwybodol o'r busnes y mae'r Cynulliad yn ei gontractio i ddarparwyr allanol. O wneud hyn, rydym yn rhoi arwydd o'r contractau sy'n debygol o gael eu cynnig i dendr yn y dyfodol er nad oes modd gwarantu y bydd contract penodol yn cael ei adnewyddu ar ei ffurf bresennol neu, yn wir, ei adnewyddu o gwbl. Mae hyn yn cyfrannu at bolisi'r Cynulliad o annog a chefnogi busnesau bach a chanolig drwy ei bolisi caffael ac yn darparu gwybodaeth i gyflenwyr a fydd o bosibl am dendro am y contractau hyn a gwybodaeth i fusnesau bach a chanolig a fydd am ddatblygu eu busnes o bosibl drwy weithredu fel is-gontractwr i'r prif gyflenwr.

4.2 Mae'r broses gaffael yn un gymhleth ac yn elfen o fusnes y Cynulliad a reolir yn fanwl. Yn ogystal â'r angen sylfaenol i ddiwallu anghenion busnes yn effeithiol ac effeithlon, dylanwadir ar gaffael gan ofynion cyfreithiol a pholisïau'r Cynulliad mewn cysylltiad â:

- hybu busnesau bach a chanolig;
- cynaliadwyedd;
- cyfrifoldeb cymdeithasol;
- cystadleuaeth agored a theg;
- Cyfraith Ewropeaidd (y farchnad sengl); a
- sicrhau gwerth am arian.

4.3 Mae'n werth nodi y gall y ffactorau hyn ar brydiau weithio'n groes i'w gilydd. Er enghraifft, mae ffactorau sy'n ymdrechu i leihau costau trwy gydweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau yn annog gosod contractau mawr. I'r gwrthwyneb, gall polisïau sy'n annog busnesau bach a chanolig gyfeirio tuag at gontractau llai. Un ffordd o wneud iawn am hyn yw trwy greu cyfleoedd i isgontractwyr ddod i mewn i gontractau mwy ac mae'r rhestr o gontractau yn helpu yn hyn o beth.

4.4 Mae'n werth nodi hefyd bod polisïau sydd wedi'u cyfeirio at annog cwmnïau lleol yn unig yn anghyfreithlon o dan

ddarpariaethau marchnad sengl yr UE. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn annog polisïau ar gyfer datblygu busnesau bach a chanolig sydd, o ran natur, yn tueddu i fod yn 'lleol' i'r awdurdod sy'n contractio ond rhaid i arferion caffael sicrhau nad yw cyfleoedd yn gyfyngedig yn ddaearyddol.

4.5 Mae caffael yn faes cyfreithgar iawn ac mae'r gyfraith yn darparu cyfleoedd i gyflenwyr posibl sy'n teimlo eu bod wedi'u trin yn annheg i geisio unioni hyn drwy'r llysoedd. Ehangwyd y pwerau hyn yn ddiweddar gan Gyfarwyddeb Unioni Cam yr UE sydd wedi cryfhau pwerau'r llysoedd a chynyddu'r gosb am beidio â chydymffurfio â'r gyfraith.

4.6 Gyda chontract o unrhyw fath, dim ond dechrau'r broses yw caffael. Os yw gwasanaethau a gontractiwyd i gael eu darparu'n llwyddiannus, mae angen cynnal cysylltiadau gweithio effeithiol gyda'r contractwr i sicrhau ymlyniad o'r ddwy ochr i ofynion y contract, wrth fod yn hyblyg i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid. Mae gwella rheolaeth contractau yn un o'n blaenoriaethau datblygu.

4.7 Mae Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad wedi ystyried nifer o adroddiadau archwilio mewnol ar gaffael a rheoli contractau, sydd wedi nodi gwersi pwysig i'w dysgu ac argymhellion ar gyfer datblygu ein dulliau rheoli a'n harbenigedd. Bu'r Pwyllgor yn fodlon yn gyffredinol gyda'r cynnydd a wnaed i weithredu argymhellion yr adroddiadau archwilio mewnol, ond mae am weld rhagor o dystiolaeth ein bod yn gwneud y newidiadau a gynlluniwyd yn rhan annatod o'n gwaith dros y flwyddyn nesaf. Bwriada'r Pwyllgor arolygu'n drylwyr y cynnydd a wneir i weithredu'r gwelliannau.

4.8 Efallai y bydd Comisiwn y Cynulliad am drafod ac ymchwilio ymhellach i agweddau ar gaffael a pholisi caffael. Ymhlith yr opsiynau ar gyfer rhagor o ymwneud gan Gomisiynwyr:

- Efallai y bydd Comisiynwyr am gymryd diddordeb mewn contractau mwy arwyddocaol sydd yn arbennig o berthnasol i'w portffolio, drwy gael eu cynnwys ym manyleb y gwasanaeth, drwy ymgynghori â hwy ynghylch y broses gaffael a thrwy gymryd trosolwg o safonau'r gwasanaeth fel rhan o'r contract. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth TGCh cyfredol gan Siemens (ein contract

allanol mwyaf) yn dod i ben yn 2014, ac rydym wedi dechrau cynllunio'r ffordd ymlaen eisoes. Bydd hon yn broses gymhleth ac mae'n allweddol i wasanaethau'r Cynulliad;

- gallai Comisiynydd arwain ar ran y Comisiwn yn ein gwaith cyfredol o adolygu prosesau a pholisïau caffael, er mwyn iddo neu iddi allu adrodd ar unrhyw newidiadau a gwelliannau yn yr hydref;

- gellid cynnal adolygiad polisi cynhwysfawr o ran dull y Comisiwn o drefnu gwasanaethau drwy gontractau mewnol a chontractau allanol, gyda Chomisiynydd yn goruchwylio ac yn arwain y broses ymgynghori. Mae'n bosibl y byddai goblygiadau ehangach i hyn o ran y modd y darperir gwasanaethau'r Cynulliad a faint y maent yn ei gostio.

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol âr heolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 8)**
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 29 Mehefin 2011
**Amser:** 11.30-13.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn, est 8705

## Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad Portffolio/swyddog arwain |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 11** | Gwasanaethau dwyieithog | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Strategaeth y Comisiwn 2011-16 | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Strategaeth cyllideb y Comisiwn 2012-13 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | System rheoli achosion | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Methodoleg/amserlen adolygiad effeithiolrwydd y Comisiwn | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Medi 11 (wythnos gyntaf y tymor)** | Cyllideb ddrafft y Comisiwn 2012-13 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| **Hydref 11** | Adborth am yr ymgyrch Pleidleisiwch 2011 | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Is-osod Tŷ Hywel | Peter Black/Dianne Bevan |
| | Adolygiad chwe misol o fuddiannau ac arbedion UNO | Peter Black/Dianne Bevan |
| | Trafodaeth am yr Agoriad Brenhinol | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |

**NAFWC 2011 (Papur 8)**
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad Portffolio/swyddog arwain |
|---|---|---|
| | Adroddiad terfynol Rhaglen y Pedwerydd Cynulliad | Y Llywydd/Dianne Bevan |
| | Gwasanaethau dwyieithog | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Tachwedd 11** | Gwasanaethau dwyieithog | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad blynyddol ar y strategaeth rheoli carbon | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Ionawr 12** | Taliadau staff y Cynulliad? | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Cynllun cydraddoldeb 2012-16 | Sandy Mewies/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad o'r prosesau Rhyddid Gwybodaeth? | Sandy Mewies/Non Gwilym |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Mawrth 12** | Taliadau staff y Cynulliad? | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad chwe misol o fuddiannau ac arbedion UNO | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Fframwaith ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon 2011-12 | Angela Burns/Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |

**NAFWC 2011 (Papur 8)**
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad Portffolio/swyddog arwain |
|---|---|---|
| **Mai 12** | Strategaeth y gyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adolygiad o effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Gorffennaf 12** | Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2011-12 | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Strategaeth y gyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |